Hysbysiad statudol i gynyddu lleoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Rhoddir hysbysiad yn unol ag adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgol fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar ôl ymgynghori â'r personau sy'n ofynnol, yn cynnig cynyddu lleoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas, Lôn Barcas, Wrecsam, LL13 9TP o fis Medi 2020. Bydd yr ysgol yn y pendraw â lle i 315 o fechgyn a merched tair i unarddeg oed a 45 o Blant Meithrin. Mae'r cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod, sef 30 disgybl, yn berthnasol i'r dosbarthiadau derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigwyr a safbwyntiau Estyn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol, yma **www.wrexham.gov.uk/barkerslaneconsultation**

Bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam gan ddechrau ym mis Medi 2020 fel a ganlyn:

Cam 1 – Ar 1 Medi 2020 bydd yr ysgol yn cynyddu'r nifer a gaiff eu derbyn o 30 i 45 o ddisgyblion ar gyfer y dosbarth Meithrin ac o 30 i 45 o ddisgyblion ar gyfer y dosbarth Derbyn ar gyfer mynediad pob blwyddyn. Bydd yr holl grwpiau blwyddyn presennol yn parhau yn 30.

Cam 2 – Ar 1 Medi 2021 bydd hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn. Bydd y disgyblion presennol yn y dosbarth derbyn yn symud ymlaen i Flwyddyn 1.

Cam 3 – Ar 1 Medi 2022 bydd hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1 a 2.

Cam 4 – Ar 1 Medi 2023 bydd hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin a hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1, 2 a 3.

Cam 2 – Ar 1 Medi 2024 bydd hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin a hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1, 2, 3 a 4.

Cam 6 – Ar 1 Medi 2025 bydd hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin a hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1, 2, 3, 4 a 5.

Cam 7 – Ar 1 Medi 2026 bydd hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin a hyd at 45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6.

Bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas arfaethedig yn parhau yn ysgol gynradd gymunedol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel Awdurdod Lleol, fydd yr awdurdod derbyn. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis ar sail dawn na gallu.

Bydd gan yr ysgol ar ei ffurf newydd le i 315 o ddisgyblion a lle i 45 o blant meithrin rhan amser.

Ymdrinnir â chludiant ar gyfer disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Mae manylion Polisi Derbyn a Pholisi Cludiant Ysgol yr Awdurdod Lleol ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar www.wrexham.gov.uk

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 11 Ebrill 2019, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Pennaeth Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR.

Llofnod …..……..

Pennaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef yr Awdurdod Lleol

14 Mawrth 2019